# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN, AR DDYDD MERCHER 15 MAI 2019 AM 10:30 A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol) ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

M. Williams (Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro), C. Edwards (Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd yr Aelodau Cabinet canlynol fuddiannau personol yn yr eitemau canlynol:

Y Cynghorydd C. Cuss am eitemau 4 a 5 (Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir; Adroddiad Adolygiad Eiddo 2019) fel Aelod Pwyllgor Canolfan Gymunedol a Llywodraethwr Ysgol.

Y Cynghorydd N. George am eitemau 4 a 5 (Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir; Adroddiad Adolygiad Eiddo 2019) fel Llywodraethwr Ysgol a Chynghorydd Cymuned.

Y Cynghorydd C. Gordon am eitem 5 (Adroddiad Adolygiad Eiddo 2019) fel Llywodraethwr Ysgol.

Y Cynghorydd B. Jones am eitemau 4 a 5 (Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir; Adroddiad Adolygiad Eiddo 2019) fel Cynghorydd Cymuned a Llywodraethwr Ysgol.

Y Cynghorydd S. Morgan am eitemau 4 a 5 (Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir; Adroddiad Adolygiad Eiddo 2019) fel Aelod Pwyllgor Canolfan Gymunedol, Cynghorydd Cymuned a Llywodraethwr Ysgol.

Y Cynghorydd L. Phipps am eitem 5 (Adroddiad Adolygiad Eiddo 2019) fel Aelod Pwyllgor Canolfan Gymunedol, Llywodraethwr Ysgol ac Ymddiriedolwr Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Y Cynghorydd D. Poole am eitemau 4 a 5 (Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir; Adroddiad Adolygiad Eiddo 2019) fel Llywodraethwr Ysgol.

Y Cynghorydd E. Stenner am eitem 5 (Adroddiad Adolygiad Eiddo 2019) fel Aelod Pwyllgor Canolfan Gymunedol, Llywodraethwr Ysgol ac Ymddiriedolwr Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Gan fod y rhain yn fuddiannau personol a heb fod yn rhagfarnllyd, nid oedd yn ofynnol i Aelodau adael yr ystafell, a gallent gymryd rhan yn y ddadl a phleidleisio.

## 3. CABINET – 24 EBRILL 2019

PENDERFYNWYD y caiff cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ebrill 2019 eu cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION LLE MAE ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. STRATEGAETH RHEOLI ASEDAU – EIDDO A THIR

Datganodd yr Aelod Cabinet canlynol fuddiannau personol yn yr eitem hon:

Y Cynghorydd C. Cuss fel Aelod Pwyllgor Canolfan Gymunedol Ael-y-bryn, Llywodraethwr ac Is-gadeirydd Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a Llywodraethwr Ysgol Idris Davies 3–18.

Y Cynghorydd N. George fel Llywodraethwr Ysgol Gyfun Rhisga ac Ysgol Gynradd Tŷ Sign a Chynghorydd Cymuned ar gyfer Rhisga.

Y Cynghorydd B. Jones fel Cadeirydd Cyngor Cymuned y Fan a Llywodraethwr Ysgolion Sant Iago a Cenydd Sant.

Y Cynghorydd S. Morgan fel Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanfabon, Cadeirydd Canolfan Gymunedol Nelson a Chynghorydd Cymuned Nelson.

Y Cynghorydd L. Phipps fel Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Bedwas ac Ysgol Gynradd a Chymunedol Graig-y-rhaca, Cynrychiolydd y Cyngor i Ganolfan Gymunedol Graig-y-rhaca ac Ymddiriedolwr Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Y Cynghorydd D. Poole fel Llywodraethwr Ysgol Gymraeg Pengam ac Ysgol Gynradd Fleur-de-lis.

Y Cynghorydd E. Stenner fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd Treffilip ac Ysgol Gynradd y Rhosyn Gwyn, Cynghorydd Cymuned ar gyfer Treffilip ac Ymddiriedolwr Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Gan fod y rhain yn fuddiannau personol a heb fod yn rhagfarnllyd, nid oedd yn ofynnol i Aelodau adael yr ystafell, a gallent gymryd rhan yn y ddadl a phleidleisio.

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet i weithredu'r Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir.

Nododd y Cabinet fod y Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir – bresennol wedi'i mabwysiadu yn 2011 ac nid yw'n adlewyrchu'n llawn y sefyllfa bresennol ac arfaethedig o ran cymdeithas, gwasanaeth, staffio a thueddiadau a phwysau ariannol. O ganlyniad, mae'r Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir – (a atodwyd i adroddiad y Cabinet) yn amlinellu'r strategaeth ar gyfer rheoli asedau eiddo a thir yr Awdurdod am y cyfnod 2019 i 2024.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafododd yr Aelodau'r asedau a'r safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor a gofynnwyd am eglurhad ar reoli'r gyllideb. Cadarnhaodd swyddogion fod yna nifer o safleoedd – gan gynnwys Ysgolion, Safleoedd Addysg Oedolion, Toiledau Cyhoeddus, Adeiladau Twristiaeth a Thai Lloches – lle mae'r gyllideb yn cael ei rheoli gan y tenant, a bydd gwybodaeth am hyn yn cael ei chynnwys yn y Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir – am resymau eglurder.

Cafwyd trafodaethau ynglŷn â Thir Anweithredol heb Ddiben Strategol, gan gyfeirio'n benodol at Waredu Tir ar gyfer Datblygiad Preswyl, a gofynnodd y Cabinet am i Gartrefi Caerffili gael y cynnig cyntaf ar leiniau gwag o dir sydd o dan ystyriaeth ailddatblygu, mewn ymgynghoriad â'r Cabinet, Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, neu werthu ar y farchnad agored.

Trafododd yr Aelodau'r Arfarniadau o'r Opsiynau a thrafodwyd yr opsiwn arfaethedig i droi Rhydd-ddaliadau yn Lles-ddaliadau. Esboniodd Swyddogion fod hyn yn cyfeirio at adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, lle ffafrir tenantiaid er mwyn cynyddu refeniw. Fodd bynnag, sicrhaodd y Swyddogion yr Aelodau y bydd hyn yn cael ei egluro yn yr adroddiad.

Cafwyd trafodaethau am Gylch Gorchwyl Eiddo a Thir y Grŵp Rheoli Asedau a gofynnodd yr Aelodau am i'r Aelod/Aelodau Cabinet perthnasol hefyd fod yn rhan o gyfansoddiad y grŵp. Cytunodd Swyddogion i ddiwygio yn unol â'r cais.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diwygiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod, i fabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau – Eiddo a Thir 2019-2024, a'i gweithredu.

## 5. ADRODDIAD ADOLYGIAD EIDDO 2019

Datganodd yr Aelodau Cabinet canlynol fuddiannau personol yn yr eitem hon:

Y Cynghorydd C. Cuss fel Aelod Pwyllgor Canolfan Gymunedol Ael-y-bryn, Llywodraethwr ac Is-gadeirydd Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf a Llywodraethwr Ysgol Idris Davies 3–18.

Y Cynghorydd N. George fel Llywodraethwr Ysgol Gyfun Rhisga ac Ysgol Gynradd Tŷ Sign a Chynghorydd Cymuned ar gyfer Rhisga.

Y Cynghorydd C. Gordon fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd y Bryn.

Y Cynghorydd B. Jones fel Cadeirydd Cyngor Cymuned y Fan a Llywodraethwr Ysgolion Sant Iago a Cenydd Sant.

Y Cynghorydd S. Morgan fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd Llanfabon, Cadeirydd Canolfan Gymunedol Nelson a Chynghorydd Cymuned Nelson.

Y Cynghorydd L. Phipps fel Llywodraethwr Ysgol Uwchradd Bedwas ac Ysgol Gynradd a Chymunedol Graig-y-rhaca, Cynrychiolydd y Cyngor i Ganolfan Gymunedol Graig-y-rhaca ac Ymddiriedolwr Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Y Cynghorydd D. Poole fel Llywodraethwr Ysgol Gymraeg Pengam ac Ysgol Gynradd Fleur-de-lis.

Y Cynghorydd E. Stenner fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd Treffilip ac Ysgol Gynradd y Rhosyn Gwyn, Cynghorydd Cymuned ar gyfer Treffilip ac Ymddiriedolwr Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Gan fod y rhain yn fuddiannau personol a heb fod yn rhagfarnllyd, nid oedd yn ofynnol i Aelodau adael yr ystafell, a gallent gymryd rhan yn y ddadl a phleidleisio.

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb ffeithiol i'r Cabinet o ddaliadau eiddo'r Awdurdod (Tir ac Adeiladau) a cheisio cymeradwyaeth i'r adolygiad eiddo sy'n cwmpasu'r cyfnod 2018–2019

Nod yr Adroddiad Adolygiad Eiddo yw rhoi trosolwg a chofnod cryno o'r hyn sy'n bortffolio eiddo annomestig mawr ac amrywiol iawn. Mae'n cyflwyno rhai metrigau allweddol, yn amlygu tueddiadau cyfnod, yn crynhoi gwarediadau a chaffaeliadau ac yn nodi rhai o'r heriau i ddod. Mae'r adroddiad yn dilyn ymlaen o Adroddiad Adolygiad Eiddo 2018 a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mai 2018.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad yn fanwl a chodwyd cwestiynau ynghylch cyflwr yr ystâd, gan gyfeirio'n benodol at adeiladau a gategoreiddir fel "C4 – Yn Weithredol Wael" a'r cynlluniau i unioni hyn. Esboniodd Swyddogion fod nifer o gynlluniau ar waith y tu allan i'r Portffolio Eiddo, megis Cynllun Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a fydd yn mynd i'r afael â materion a nodwyd ar safleoedd ysgolion ac, yn ogystal, nodwyd nifer o Ganolfannau Hamdden yn y categori hwn, a fydd yn derbyn sylw o dan y Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol.

Cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn ag eiddo Gwasanaethau Cymdeithasol yn Nhŷ Pontygwindy, lle mae nifer o dimau wedi'u lleoli ac yn gweithio'n dda o fewn yr adeilad. Eglurodd Swyddogion fod penderfyniad wedi cael ei wneud, mewn ymgynghoriad â staff, i adleoli staff a chael gwared ar y safle. Nodwyd safleoedd adleoli ar gyfer pob un o'r timau a chynhaliwyd dadansoddiad cost, a chytunodd y Swyddogion i'w ddosbarthu i'r Aelodau er gwybodaeth iddynt.

Cododd Aelod Cabinet gwestiwn ynghylch y datblygiad preswyl yn Nhŷ Pontllan-fraith, a nodwyd bod y preswylwyr wedi tynnu sylw at y ffaith bod gwaith wedi dechrau a bod coed wedi'u torri. Esboniodd y Swyddogion mai dim ond gwaith ymchwilio sy'n cael ei gynnal ar y safle, fodd bynnag, edrychir ar hyn ymhellach, a rhoddir adborth i'r Aelodau.

Cafwyd trafodaethau ynghylch yr adeiladau a restrwyd yn yr adroddiad fel Safleoedd Dechrau'n Deg, a nodwyd nad oedd y rhain yn eiddo i'r Cyngor ond yn adeiladau ar brydles, cytunodd Swyddogion i gysylltu â'r Tîm Ystadau a diwygio fel y bo'n briodol.

Ystyriodd y Cabinet ôl troed carbon y Cyngor a chafwyd trafodaethau ynghylch y Defnydd Trydan Blynyddol ar gyfer Tŷ Penallta, a chodwyd cwestiwn am y rheswm dros y tueddiad am i lawr a gofnodwyd yn 2017/18 a'r cynnydd bach yn 2018/19. Eglurodd Swyddogion fod nifer o ffactorau'n effeithio ar y ffigurau; roedd y gostyngiad cychwynnol o ganlyniad i weithredu system oeri â llaw, gan roi mwy o reolaeth dros y tymheredd a'r defnydd o ynni, ond roedd y cynnydd bychan o ganlyniad i'r gaeaf garw yn 2018/19, gan arwain at gynnydd yn y defnydd o ynni. Fodd bynnag, ychwanegodd Swyddogion y rhagwelir y bydd y ffigurau hyn yn lleihau'n sylweddol yn ystod y flwyddyn nesaf ar ôl rhoi'r system oleuo newydd ar waith yn Nhŷ Penallta.

Wrth ystyried manylion y safle yn Rhodfa'r Llwyfen, Rhisga, nododd Aelod fod 12 uned yn yr ardal honno. Cytunodd Swyddogion i ddiwygio'r adroddiad lle bo'n briodol.

Yn ogystal, gofynnwyd i Swyddogion nodi bod tybiaethau'n seiliedig ar 2018/19, er mwyn gwneud y data'n fwy clir.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, i wneud y canlynol:

i) Nodi Adroddiad Adolygiad Eiddo 2019 a'r newidiadau yn y portffolio eiddo;

ii) Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol (fel y'i hatodir i adroddiad y Cabinet).

## 6. STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 14 Mai, yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu a chyhoeddi'r Strategaeth Toiledau Lleol (“y Strategaeth”).

Nodwyd bod adroddiad wedi cael ei gyflwyno o'r blaen i'r Cabinet ar 28 Tachwedd 2018 yn manylu ar y gofyniad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili lunio Strategaeth Toiledau Lleol. Ceisiodd yr adroddiad hefyd ganiatâd i ymgynghori ar y Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft a baratowyd. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyhoeddi ei Strategaeth erbyn 31 Mai 2019.

Nid yw'r ddyletswydd i baratoi Strategaeth Toiledau Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol. Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd golwg strategol ar sut y gall y boblogaeth leol ddarparu cyfleusterau a chael mynediad iddynt.

Ar ôl adolygu'r strategaeth hon, mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyhoeddi datganiad o gynnydd. Dylai'r strategaeth gyfrannu at sicrhau toiledau hygyrch a glân lle bynnag y mae pobl yn byw, yn gweithio neu'n ymweld.

Yn ystod hydref 2018, cwblhawyd asesiad o angen, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn nodi'r ddarpariaeth bresennol, yr angen presennol ac yn y dyfodol, a bylchau yn y ddarpariaeth. Ymgorfforwyd yr adborth a'r canfyddiadau o'r gwaith hwn yn y Strategaeth ddrafft. Ar ôl hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 14 Rhagfyr 2018 ac 8 Mawrth 2019 er mwyn casglu barn am gynnwys y Strategaeth ddrafft ddiwygiedig. Cafwyd 83 o ymatebion ac maent wedi'u dadansoddi a'u nodi yn Atodiad 1.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad diwethaf fwy neu lai ar yr un pryd â'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a oedd yn cynnwys cynnig i gau pum bloc o doiledau cyhoeddus ar draws y fwrdeistref sirol. O ganlyniad, roedd llawer o'r ymatebwyr wedi cysylltu cau'r toiledau cyhoeddus â'r Strategaeth ac, o ganlyniad, roedd llawer o'r adborth o'r ymgynghoriad yn ymwneud â chael gwared ar y ddarpariaeth bresennol, yn enwedig cyfleusterau ar gyfer pobl anabl.

Mae'r Strategaeth yn cyfeirio at gau'r toiledau cyhoeddus; felly ni fu angen diwygio'r strategaeth o ganlyniad uniongyrchol i'r sylwadau a gafwyd.

Ystyriodd Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r Strategaeth Toiledau Lleol ddiwygiedig a darparodd sylwadau ac adborth ar y broses ymgynghori, cyhoeddi'r strategaeth a chodi pryderon ynghylch hwylustod yr “Ap” i ddefnyddwyr, gyda phryderon penodol am bobl hŷn sydd efallai heb fynediad at ffôn clyfar. Hefyd, mynegodd y Pwyllgor Craffu nifer o bryderon ynghylch arwyddion y cyfleusterau toiled sydd ar gael yng nghanol trefi, gyda rhai pryderon yn cael eu codi ynghylch y sticeri

arfaethedig, a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i hysbysu'r cyhoedd am gyfleusterau mewn siopau ac adeiladau penodol yng nghanol trefi.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafododd y Cabinet y Strategaeth yn fanwl a'r cyfathrebu i ddilyn ei chyhoeddi. Gofynnwyd am gyhoeddi datganiad manwl i'r wasg yn Newsline Caerffili yn rhoi enghraifft o sticer Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth, yn ogystal â manylion am y cyfleusterau sydd ar gael.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y broses ymgynghori ar gyfer cau toiledau cyhoeddus a nodwyd bod llawer iawn o ymwneud â chynghorau cymuned, perchnogion safleoedd a mudiadau gwirfoddol ac, ers cau cyfleusterau yng nghanol trefi, mae gwaith ar y gweill yng Nghaerffili, Bargod, Rhisga a Choed Duon i drefnu trosglwyddo cyfrifoldeb am ddarparu cyfleusterau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo mabwysiadu a chyhoeddi'r Strategaeth Toiledau Lleol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:08am.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod i'w gynnal ar 29 Mai 2019.

________________________

CADEIRYDD